Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Asesiad Strwythuredig 2015

# **Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**

**Blwyddyn archwilio:** 2015

**Cyhoeddwyd:** 22 Rhagfyr 2015

**Cyfeirnod y ddogfen:** 751A2015

# Statws yr adroddiad

Lluniwyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru – swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Dave Thomas, Elaine Matthews, James Foster, Alun Griffiths, Jason Garcia ac Anthony Veale.

# Cynnwys

Mae'r trefniadau i gefnogi llywodraethu da a defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau wedi'u hatgyfnerthu'n sylweddol. Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (y Bwrdd Iechyd) mewn sefyllfa gryfach i sicrhau cydbwysedd ariannol ac i hyrwyddo gwaith trawsnewid, ar yr amod y gellir cynnal gwytnwch a chyflymder y newid.


| | |
|---|---|
| Crynodeb | |
| Y Cyd-destun | 4 |
| Y Prif Gasgliadau | 5 |
| Argymhellion | 7 |
| Adroddiad manwl | |
| Yn dilyn yr hwb ariannol, mae'r Bwrdd Iechyd yn debygol o sicrhau cydbwysedd ariannol yn 2015-16, gyda threfniadau da i reoli a chraffu ar berfformiad yn ystod y flwyddyn. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd atgyfnerthu ei waith cynllunio ariannol er mwyn ymateb i'r amgylchedd ariannol heriol. | 9 |
| Mae'r Bwrdd wedi pennu gweledigaeth glir, wedi atgyfnerthu capasiti'r Weithrediaeth, ac wedi cyflwyno gwelliannau i'r trefniadau llywodraethu. Yr her wrth symud ymlaen yw mireinio, cynnal ac ymwreiddio'r trefniadau hyn ymhellach drwy'r holl sefydliad. | 13 |
| Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu agenda uchelgeisiol ar gyfer newid ac yn gweithio i atgyfnerthu ei drefniadau ar gyfer cyfathrebu, ymgysylltu a gwaith partneriaeth er mwyn cefnogi trawsnewid. Ceir risgiau sylweddol o hyd yn gysylltiedig â'r ystâd serch hynny. | 28 |
| Atodiadau | |
| Argymhellion o asesiad strwythuredig 2014 | 35 |

# Crynodeb

## Y Cyd-destun

**1.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwasanaethu oddeutu 133,000 o bobl, ac mae ganddo gyllideb o £281 miliwn. Mae ardal y Bwrdd Iechyd yn cynnwys chwarter tir Cymru, â'r rhan fwyaf o'r ardal honno'n wledig heb unrhyw ddinasoedd mawr nac Ysbytai Cyffredinol Dosbarth. Darperir gwasanaethau gofal iechyd yn ei naw ysbyty cymuned ac yn nes at adref drwy ofal sylfaenol a gofal yn y gymuned. Bydd cleifion hefyd yn derbyn gofal yn yr ysbyty a gomisiynir gan sefydliadau gofal iechyd eraill yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflogi tua 1,500 o aelodau staff.

**2.** Mae'r Asesiad Strwythuredig yn archwilio trefniadau o fewn y Bwrdd Iechyd sy'n cefnogi llywodraethu da a defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. Yn rhan o waith 2015, fel y blynyddoedd cynt, aseswyd cadernid trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, digonolrwydd ei drefniadau llywodraethu a'r rheolaeth ar ffactorau galluogi allweddol sy'n cefnogi defnydd effeithiol o adnoddau. Wrth archwilio'r meysydd hyn, rydym wedi ystyried y cynnydd a wnaed yn erbyn materion gwella a nodwyd y llynedd[1]. Roedd y gwaith archwilio wedi'i drefnu o amgylch y meysydd canlynol:

- **Cynllunio a rheoli ariannol**, gan gynnwys:
  - iechyd ariannol, cynllunio ariannol a chynlluniau gwella costau.
- **Trefniadau ar gyfer llywodraethu'r busnes**, gan gynnwys:
  - strategaeth, strwythur, trefniadau llywodraethu a rheolaeth fewnol.
- **Ffactorau sy'n galluogi defnydd effeithiol o adnoddau**, gan gynnwys:
  - rheoli newid, ystadau, partneriaeth ac ymgysylltu.

**3.** Ers ein hadroddiad ar ddiwedd 2014, bu'r Bwrdd Iechyd drwy gyfnod o newid mawr. Mae gan y Bwrdd Iechyd ragolygon ariannol gwell gan fod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau nad oes modd ad-dalu'r diffyg o £19 miliwn a adroddwyd yn 2013-14, ac yn sgil darparu £25 miliwn o gyllid cylchol ychwanegol Ar ben hynny, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru'r cynllun strategol tair blynedd (CTCI), sy'n pennu gweledigaeth glir ar gyfer cyfeiriad gwasanaethau yn y dyfodol. Cyflwynwyd newidiadau eraill i'r Bwrdd, gyda phum Aelod Annibynnol newydd yn lle'r pum aelod blaenorol a Phrif Weithredwr newydd ynghyd â thîm cryfach ar y Weithrediaeth. Cafwyd newid hefyd i'r strwythur lleol er mwyn gwneud y trefniadau ar gyfer atebolrwydd yn fwy eglur.

[1] Nodir argymhellion a wnaed yn 2014, ynghyd â chrynodeb o gynnydd yn Atodiad 1.

# Y Prif Gasgliadau

**4.** Yn 2014, casgliad ein hasesiad strwythuredig oedd:

- bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu heriau eithriadol o ran ei sefyllfa ariannol, a'i bod yn annhebygol y byddai'n sicrhau cydbwysedd ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol;
- nad oedd y newidiadau angenrheidiol i drefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd wedi'u hymwreiddio, nac yn gwbl effeithiol eto; a
- bod ymadawiad arfaethedig y Prif Weithredwr yn amharu fwy fyth ar allu'r Bwrdd Iechyd i ysgogi newid ar y cyflymder sydd ei angen.

**5.** Yn ystod 2015, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni amrywiaeth eang o weithgareddau er mwyn ymdrin â diffygion yn ei drefniadau llywodraethu. Ein casgliad cyffredinol o'r gwaith ar asesiad strwythuredig 2015 yw bod **trefniadau i gefnogi llywodraethu da a defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau wedi cryfhau'n sylweddol. Mae'r Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa gryfach i sicrhau cydbwysedd ariannol ac i hyrwyddo gwaith trawsnewid, ar yr amod y gellir cynnal gwytnwch a chyflymder y newid.**

**6.** Nodir isod y rhesymau dros ddod i'r casgliad hwn.

## Cynllunio a rheoli ariannol

**7.** Yn dilyn yr hwb ariannol, mae'r Bwrdd Iechyd yn debygol o sicrhau cydbwysedd ariannol yn 2015-16, gyda threfniadau da i reoli a chraffu ar berfformiad yn ystod y flwyddyn. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd atgyfnerthu ei waith cynllunio ariannol er mwyn ymateb i'r amgylchedd ariannol heriol.

**8.** Yn benodol, daethom i'r casgliad canlynol:

- yn 2014-15, gweithredodd y Bwrdd Iechyd oddi mewn i'w ddyraniad adnoddau refeniw a chyfalaf blynyddol; ac
- ar ddiwedd mis Medi 2015, roedd y Bwrdd Iechyd yn rhagweld alldro cytbwys ar ddiwedd y flwyddyn yn erbyn ei ddyraniad adnoddau refeniw blynyddol, er bod yr amgylchedd ariannol yn parhau i fod yn heriol.

## Trefniadau ar gyfer llywodraethu'r busnes

**9.** Mae'r Bwrdd wedi pennu gweledigaeth glir, wedi atgyfnerthu capasiti'r Weithrediaeth, ac wedi cyflwyno gwelliannau i'r trefniadau llywodraethu. Yr her wrth symud ymlaen yw mireinio, cynnal ac ymwreiddio'r trefniadau hyn ymhellach drwy'r holl sefydliad.

**10.** Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfuom:

- Fod trefniadau cynllunio wedi gwella, ac mae'r ffaith bod y Gweinidog wedi cymeradwyo'r CTCI yn tystio i hyn. Mae'r CTCI yn pennu gweledigaeth glir, ac mae lle i finiogi mwy ar gynnwys y fersiwn nesaf ohono.
- Bod Rhaglen Gwella Llywodraethu gynhwysfawr a phortffolios diwygiedig ar y Weithrediaeth yn rhoi'r Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa well i gyflawni ei amcanion strategol. Yr her yw sicrhau bod digon o wytnwch a gallu yn nhîm y Weithrediaeth i gyflawni newid ar gyflymder cynaliadwy, i atgyfnerthu'r capasiti rheoli gweithredol, ac i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn taro ar y cydbwysedd cywir rhwng trefniadau cyflenwi ardal-benodol a threfniadau cyflenwi ar gyfer Powys yn ei chyfanrwydd.
- Bod y Bwrdd wedi gwneud cynnydd da wrth atgyfnerthu ei effeithiolrwydd cyffredinol, ond bod angen gwneud gwaith pellach cyn y gall ddangos ei fod yn cynnal arfer da a'r gallu i arloesi. Mae aelodau'r Bwrdd yn arddangos ymrwymiad clir i fod yn agored, i herio mewn ffordd adeiladol ac i wella ansawdd.
- Bod strwythur pwyllgorau'r Bwrdd yn cefnogi trefniadau llywodraethu da, a bod tystiolaeth yn dangos bod trefniadau'n gwella'n barhaus. Fodd bynnag, dim ond yn ddiweddar y cyflawnwyd rhai o'r newidiadau, felly nid ydynt wedi'u hymwreiddio eto, ac mae angen gweithredu cynlluniau i ymdrin ag unrhyw fylchau sy'n weddill o ran llywodraethu ansawdd yn llawn.
- Ar y cyfan, fod y Bwrdd yn derbyn gwybodaeth ddigonol i gefnogi gwaith craffu a phenderfynu effeithiol, er bod angen mireinio mwy ar y trefniadau ar gyfer adrodd.
- Bod y rheolaethau mewnol bellach yn effeithiol ar y cyfan o ran bodloni gofynion sicrwydd, ond bod angen gwella rhai agweddau ymhellach, gan gynnwys rheoli risg a'r defnydd o archwiliadau clinigol.
- Bod y Bwrdd Iechyd wedi atgyfnerthu ei drefniadau llywodraethu gwybodaeth gan gyflwyno strategaeth a chynllun gweithredu cyfredol, a bod ei Bwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth yn gweithredu'n fwy effeithiol, er bod angen mynd ati'n gynt i ymdrin â materion risg uchel sy'n codi'n barhaus.

## Ffactorau sy’n galluogi defnydd effeithiol o adnoddau

**11.** Mae’r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu agenda uchelgeisiol ar gyfer newid ac yn gweithio i atgyfnerthu ei drefniadau ar gyfer cyfathrebu, ymgysylltu a gwaith partneriaeth er mwyn cefnogi trawsnewid. Ceir risgiau sylweddol o hyd yn gysylltiedig â’r ystâd serch hynny.

**12.** Wrth ddod i’r casgliad hwn, canfuom:

- fod y Bwrdd Iechyd wedi cyfleu elfennau allweddol ei raglen drawsnewid, a bod angen iddo sicrhau ei fod yn gallu ysgogi’r newidiadau angenrheidiol i’r dull o gyflenwi gwasanaethau;
- bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd sylweddol i ymdrin â’r heriau o ran ei ystâd a’i swyddogaeth ystadau, ond bod angen gwneud llawer mwy o waith i wella cyflwr gwael yr ystâd; a
- bod gwaith partneriaeth gyda’r awdurdod lleol yn mynd rhagddo’n dda, bod y Bwrdd yn cyfathrebu mewn modd mwy tryloyw â’r cyhoedd, ond bod llawer mwy o waith ar ôl i’w wneud i gasglu gwybodaeth am brofiadau cleifion a dysgu yn eu sgil.

**13.** Ceir crynodeb o’r canfyddiadau sy’n sail i’r casgliadau hyn yn adran nesaf yr adroddiad hwn.

# Argymhellion

**14.** Yn gynharach yn 2015, yn rhan o’n Hadroddiad Archwilio Blynyddol a’n hasesiad strwythuredig ar gyfer 2014, cyflwynwyd sawl argymhelliad gennym i’r Bwrdd Iechyd. Gwnaed hynny gan ddisgwyl y byddai’n cymryd mwy na chwe mis i ymdrin â llawer o’r argymhellion dan sylw ac i ymwreiddio trefniadau gwaith newydd, oherwydd cymhlethdod y camau yr oedd angen eu cymryd. Rydym wedi cynnwys ein sylwebaeth ar y cynnydd a wnaed yn Atodiad 1. Mae’r Bwrdd Iechyd wedi arddangos cynnydd mewn sawl maes, ond mae mwy eto i’w wneud er mwyn ymateb i argymhellion y llynedd yn llawn.

**15.** Nodir isod argymhellion ychwanegol yn deillio o’r gwaith ar asesiad strwythuredig 2015. Byddwn yn parhau i olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion a wnaed yn asesiadau strwythuredig 2014 a 2015 yn rhan o raglen archwilio’r flwyddyn nesaf.

**Cynllunio a rheoli ariannol**

A1 Bu'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd ganolbwyntio llawer ar sicrhau cydbwysedd ariannol wrth reoli arian yn y gorffennol. Er y bydd angen i hyn gael blaenoriaeth o hyd, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd hefyd sicrhau bod ganddo'r capasiti a'r setiau sgiliau angenrheidiol i gefnogi'r gwaith cynllunio ariannol a thrawsnewid mwy strategol ei natur a nodir yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig.

**Trefniadau ar gyfer llywodraethu'r busnes**

A2 Er mwyn cefnogi trefniadau rheoli risg effeithiol, mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddeall a datgan yn well ei awydd am risg.

**Ffactorau sy'n galluogi defnydd effeithiol o adnoddau**

A3 Mae angen i'r Bwrdd Iechyd sefydlu grŵp cyfeirio rhanddeiliaid.

# Adroddiad manwl

## Mae’r trefniadau i gefnogi llywodraethu da a defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau wedi’u hatgyfnerthu’n sylweddol. Mae’r Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa gryfach i sicrhau cydbwysedd ariannol ac i hyrwyddo gwaith trawsnewid, ar yr amod y gellir cynnal gwytnwch a chyflymder y newid.

**16.** Ceir crynodeb isod o’r canfyddiadau sy’n sail i’r casgliad hwn, wedi’u rhannu’n grwpiau o dan y themâu cynllunio a rheoli ariannol, trefniadau ar gyfer llywodraethu’r busnes, a ffactorau sy’n galluogi defnydd effeithiol o adnoddau. Mae’r canfyddiadau’n amlygu cryfderau a datblygiadau, yn ogystal â’r risgiau a’r heriau sydd yn dal o flaen y Bwrdd Iechyd.

## Cynllunio a rheoli ariannol

### Yn dilyn yr hwb ariannol, mae’r Bwrdd Iechyd yn debygol o sicrhau cydbwysedd ariannol yn 2015-16, gyda threfniadau da i reoli a chraffu ar berfformiad yn ystod y flwyddyn. Mae angen i’r Bwrdd Iechyd atgyfnerthu ei waith cynllunio ariannol er mwyn ymateb i’r amgylchedd ariannol heriol.

**17.** Wrth ddod i’r casgliad hwn, canfuom y canlynol:

- bod y Bwrdd Iechyd wedi gweithredu oddi mewn i’w ddyraniad adnoddau refeniw a chyfalaf blynyddol yn 2014-15; ac
- ar ddiwedd mis Medi 2015, fod y Bwrdd Iechyd yn rhagweld alldro cytbwys ar ddiwedd y flwyddyn yn erbyn ei ddyraniad adnoddau refeniw blynyddol, er bod yr amgylchedd ariannol yn parhau i fod yn heriol.

**18.** Ceir crynodeb o’r canfyddiadau sy’n sail i’r casgliadau hyn yn Nhabl 1 sy’n trafod sefyllfa ariannol 2014-15 a rheolaeth a pherfformiad ariannol y Bwrdd Iechyd yn 2015-16.

Tabl 1: sefyllfa ariannol 2014-15 a rheolaeth a pherfformiad ariannol 2015-16

| Cryfderau a datblygiadau | Risgiau a heriau |
| --- | --- |
| **Sefyllfa ariannol 2014-15**<br>Ar 31 Mawrth 2014, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd gynllun tair blynedd o 2014-15 i 2016-17, a ddangosai fod gwariant yn sylweddol uwch na'r terfyn adnoddau a ragwelwyd dros y tair blynedd. Ym mis Mai 2014, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru nad oedd yn gallu cymeradwyo cynllun y Bwrdd Iechyd ar gyfer y tymor canolig, a gofynnodd i'r Bwrdd Iechyd bennu targedau cyflawnadwy a chamau gweithredu clir ar gyfer 2014-15. Yn dilyn hynny, datblygwyd 'cynllun cyflawni' blwyddyn o hyd ar gyfer 2014-15.<br>Derbyniodd y Bwrdd Iechyd ddyraniad adnoddau refeniw ychwanegol o £25m yn ystod y flwyddyn ym mis Rhagfyr 2014. Ym mis Mai 2015, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru nad oedd angen i'r Bwrdd Iechyd adennill y diffyg o £19.264m a achoswyd yn 2013-14. Fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2015, adroddodd y Bwrdd Iechyd ei fod wedi gweithredu oddi mewn i'w ddyraniad adnoddau refeniw a chyfalaf blynyddol. | **Sefyllfa ariannol 2014-15** |
| Canfyddiadau ar gyfer sefyllfa ariannol 2014-15 a nodwyd yn rhan o'n gwaith archwilio:<br>• rheolaeth dda ar y gyllideb yn ystod y flwyddyn;<br>• bu cyllid ychwanegol o gymorth i'r Bwrdd Iechyd sicrhau cydbwysedd ariannol ar ddiwedd y flwyddyn; a<br>• llwyddwyd i gyrraedd 90 y cant o'r targedau arbed. | • Yn y Strategaeth Ariannol a Chyllidebol, canfuwyd bwlch ariannol cychwynnol o £27.2 miliwn yn 2014-15;<br>• nid oedd unrhyw CTCI cymeradwy wedi'i greu;<br>• Y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad newydd ei sefydlu; a<br>• lle i gyflwyno gwelliannau pellach i'r trefniadau i gynllunio busnes, gwasanaethau a chyllid mewn modd integredig. |

| Cryfderau a datblygiadau | Risgiau a heriau |
|---|---|
| **Rheoli a pherfformiad ariannol 2015-16**<br>Cymeradwyodd y Bwrdd Iechyd ei gynllun tair blynedd 2015-16 i 2017-18 yng Nghyfarfod ei Fwrdd ar 19 Mawrth 2015. Yn dilyn hynny, cyflwynwyd y cynllun tair blynedd i Lywodraeth Cymru ar 27 Mawrth 2015. Mae'r cynllun tair blynedd 2015-16 i 2017-18 yn gynllun cytbwys o ran ei ddyraniad refeniw a'r gwariant net a gynllunnir ynddo. Wrth gyflwyno ei gynllun tair blynedd i Lywodraeth Cymru, tynnodd y Bwrdd Iechyd sylw at sawl her a risg yn gysylltiedig â chyflawni'r cynllun. Cafodd cynllun tair blynedd 2015-16 i 2017-18 ei gymeradwyo gan y Gweinidog ym mis Mehefin 2015. | **Rheoli a pherfformiad ariannol 2015-16**<br>Yn sgil y dyraniad ychwanegol o £25 miliwn dros oes y CTCI, mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd fabwysiadu dull mwy arloesol a thrawsnewidiol o gyflenwi gwasanaethau a thrin arian. Mae hyn yn her i'r Bwrdd Iechyd, yn enwedig o ran y modd y mae'n cyflunio ac yn defnyddio'r gyllideb fel cyfanswm i gyflenwi gofal iechyd i Bowys. |
| Ym mis chwech (Medi 2015), mae'r Bwrdd Iechyd yn adrodd bod y sefyllfa ariannol yn gytbwys yn y flwyddyn hyd yma, ac yn rhagweld y ceir cydbwysedd rhwng ei alldro ar ddiwedd y flwyddyn a'i ddyraniad adnoddau refeniw blynyddol.<br>Mae cyfanswm o £6.688 miliwn o dargedau arbed wedi'u hymgorffori yng nghynllun ariannol 2015-16. Mae'r Bwrdd Iechyd yn adrodd ei fod wedi tangyflawni rhywfaint ar ei gynlluniau arbed ym mis chwech. | Mae angen canolbwyntio'n barhaus ar gyflawni cynlluniau arbed ac ar sicrhau bod y trefniadau llywodraethu craidd sy'n cefnogi rheoli ariannol wedi'u hymwreiddio a'u cynnal yn llawn.<br>Mae sgiliau a chapasiti'r Tîm Cyllid yn allweddol er mwyn cynorthwyo timau gweithredol i ddatblygu a chyflawni'r cynlluniau ariannol.<br>Mae'r cynlluniau ariannol tair blynedd wedi'u gosod yn erbyn y rhagdybiaeth y gellir sicrhau mwy o 'arbedion' ymhlith darparwyr Lloegr na darparwyr Cymru. Dylai'r offeryn rheoli 'Gweithgarwch Contractau' sy'n cael ei ddatblygu gan y Bwrdd Iechyd ddarparu gwybodaeth amserol i gefnogi gwaith cynllunio i'r dyfodol.<br>Efallai y bydd dibyniaeth ormodol y Bwrdd Iechyd ar sicrhau arbedion gan ddarparwyr Lloegr (yn enwedig o ystyried y pwysau ariannu yn Lloegr) yn amharu ar gynaliadwyedd ariannol y Bwrdd Iechyd. Ymddengys mai ardaloedd yng nghanolbarth a gogledd Cymru sy'n wynebu'r heriau mwyaf yn hyn o beth. |

| Cryfderau a datblygiadau | Risgiau a heriau |
|---|---|
| **Rheoli a pherfformiad ariannol 2015-16**<br>Mae’r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn gweithio’n effeithiol i oruchwylio a chraffu ar faterion craidd. Mae’r Pwyllgor yn llawer cryfach nag yr oedd yn 2014, gyda lefel dda oddi wrth Aelodau Annibynnol newydd. Rhoddodd y swyddogion grynodebau da mewn ysgrifen ac ar lafar o eitemau ar yr agenda, gan ymateb yn dda i heriau a chwestiynau. Llwyddodd y Pwyllgor i daro cydbwysedd rhwng heriau ariannol ac ansawdd, diogelwch ac urddas cleifion.<br>Adroddiadau gwell i’r Bwrdd ar risgiau ariannol. Mae’r Bwrdd Iechyd yn profi dull newydd o adrodd am risgiau i’r sefyllfa ariannol. Ym mis Hydref 2015, adroddwyd y risgiau canlynol:<br>• £0.4 miliwn o’r risgiau mwyaf uniongyrchol a thebygol<br>• £2.6 miliwn o’r risgiau cymedrol<br>• £1.3 miliwn o’r risgiau llai tebygol | **Rheoli a pherfformiad ariannol 2015-16**<br>Er bod y Bwrdd Iechyd yn olrhain y cynlluniau arbed, nid oedd cynlluniau ysgrifenedig ar waith ar gyfer pob un ohonynt ym mis Hydref 2015. Mae hyn yn adlewyrchu bylchau ym mhroses y CTCI, lle caiff cynlluniau eu hychwanegu i greu cynllun cytbwys heb gyflawni gwaith manwl yn sail ar eu cyfer. Ers hynny, mae gwaith pellach wedi cael ei gwblhau i ddatblygu cynlluniau arbed unigol ar draws pob maes heblaw Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru.<br>Mae angen parhau i ganolbwyntio ar gyflawni cynlluniau arbed, y cerrig milltir yn y CTCI a’r trefniadau llywodraethu ehangach o ran rheoli ariannol. Mae angen parhau i ganolbwyntio ar reoli’r risgiau’n gysylltiedig â:<br>• chyflawni cynlluniau arbed (comisiynu a gofal iechyd parhaus yn benodol);<br>• rheoli’r galw gydag Ymddiriedolaethau’r GIG yn Lloegr;<br>• gwariant ar asiantaethau, sydd ar ei uchaf er blynyddoedd;<br>• cyflawni amseroedd atgyfeirio i driniaeth (AID); a<br>• chyflawni gwelliannau yng ngofal iechyd parhaus y GIG. |
| Mae’r Rhaglen Diwygio Gwasanaethau’n darparu’r rhan fwyaf o’r trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer y rhaglenni arbed oddi mewn i atebolrwydd Bwrdd y Rhaglen Drawsnewid. Mae adolygiad mewnol yn cael ei gynnal o’r cynlluniau sy’n weddill, yn rhan o’r trefniadau busnes fel arfer. | Nid yw’r Adroddiad Integredig ar Berfformiad (AIB) yn cynnwys adroddiadau ariannol, er bod gwaith ar y gweill i gynnwys adroddiadau ariannol yn yr AIB. |

# Trefniadau ar gyfer llywodraethu'r busnes

## Mae'r Bwrdd wedi pennu gweledigaeth glir, wedi atgyfnerthu capasiti'r Weithrediaeth, ac wedi cyflwyno gwelliannau i'r trefniadau llywodraethu. Yr her wrth symud ymlaen yw mireinio, cynnal ac ymwreiddio'r trefniadau hyn ymhellach drwy'r holl sefydliad.

**19.** Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfuom:

- Fod y trefniadau cynllunio wedi gwella, ac mae'r ffaith bod y Gweinidog wedi cymeradwyo'r CTCI yn tystio i hyn. Mae'r CTCI yn pennu gweledigaeth glir, ac mae lle i finiogi mwy ar gynnwys y fersiwn nesaf ohono.
- Bod Rhaglen Gwella Llywodraethu gynhwysfawr a phortffolios diwygiedig yn y Weithrediaeth yn rhoi'r Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa well i gyflawni ei amcanion strategol. Yr her yw sicrhau bod digon o wytnwch a gallu yn nhîm y Weithrediaeth i gyflawni newid ar gyflymder cynaliadwy, i atgyfnerthu'r capasiti rheoli gweithredol, ac i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn taro ar y cydbwysedd cywir rhwng trefniadau cyflenwi ardal-benodol a threfniadau cyflenwi ar gyfer Powys yn ei chyfanrwydd.
- Bod y Bwrdd wedi gwneud cynnydd da wrth atgyfnerthu ei effeithiolrwydd cyffredinol, ond bod angen gwneud gwaith pellach cyn y gall ddangos ei fod yn cynnal arfer da a'r gallu i arloesi. Mae aelodau'r Bwrdd yn arddangos ymrwymiad clir i fod yn agored, i herio mewn ffordd adeiladol ac i wella ansawdd.
- Bod strwythur pwyllgorau'r Bwrdd yn cefnogi trefniadau llywodraethu da, ac fe geir tystiolaeth bod trefniadau'n gwella'n barhaus. Fodd bynnag, dim ond yn ddiweddar y cyflawnwyd rhai o'r newidiadau, felly nid ydynt wedi'u hymwreiddio eto, ac mae angen gweithredu'n llawn y cynlluniau i ymdrin ag unrhyw fylchau sy'n weddill o ran llywodraethu ansawdd.
- Ar y cyfan, fod y Bwrdd yn derbyn gwybodaeth ddigonol i gefnogi gwaith craffu a phenderfynu effeithiol, er bod angen mireinio mwy ar y trefniadau ar gyfer adrodd.
- Bod y rheolaethau mewnol bellach yn effeithiol ar y cyfan o ran bodloni gofynion sicrwydd, ond bod angen gwella rhai agweddau ymhellach, gan gynnwys rheoli risg a'r defnydd o archwiliad clinigol.
- Bod y Bwrdd Iechyd wedi atgyfnerthu ei drefniadau llywodraethu gwybodaeth gan gyflwyno strategaeth a chynllun gweithredu cyfredol, ac mae ei Bwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth yn gweithredu'n fwy effeithiol, er bod angen mynd ati'n gynt i ymdrin â materion uchel eu risg sy'n codi'n barhaus.

**20.** Ceir crynodeb o'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliadau hyn yn yr adrannau a'r tablau canlynol.

## Cynllunio strategol

Bod y trefniadau cynllunio wedi gwella, ac mae'r ffaith bod y Gweinidog wedi cymeradwyo'r CTCI yn tystio i hyn. Mae'r CTCI yn pennu gweledigaeth glir, ac mae lle i finiogi mwy ar gynnwys y fersiwn nesaf ohono.

**21.** Ceir crynodeb o'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn Nhabl 2.

Tabl 2: cynllunio strategol

| Cryfderau a datblygiadau | Risgiau a heriau |
|---|---|
| Cymeradwywyd y CTCI gan y gweinidog ym mis Mehefin 2015:<br>• craffodd y Bwrdd ar y CTCI, a'i gymeradwyo, cyn 1 Ebrill 2015;<br>• mae'r Bwrdd wedi sefydlu proses drwyadl sy'n cynnwys model a chylch cynllunio blynyddol i fodloni gofynion Fframwaith Cynllunio GIG Cymru; ac<br>• mae egwyddorion cenedlaethau'r dyfodol a gofal iechyd darbodus y naill a'r llall wedi'u hadlewyrchu yn y CTCI. | Yn ôl Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2016-17, mae angen diweddaru'r CTCI cymeradwy presennol erbyn 29 Ionawr 2016 gan gynnwys:<br>• ffocws llawer cliriach ar y camau y mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu eu cymryd, yr effaith a fwriedir, a'r dull o asesu cyflawniad; a'r<br>• angen i gyfleu'n glir, drwy bob rhan o'r cynllun, y camau ymarferol y mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu eu cymryd er mwyn cadw at egwyddorion gofal iechyd darbodus, gan gynnwys y manteision a ragwelir a chan ganolbwyntio'n arbennig ar y gweithlu.<br>Mae angen ailwampio'r CTCI er mwyn ymdrin â gofynion Llywodraeth Cymru, ac i'w atgyfnerthu er mwyn sicrhau ffocws ar allbwn a chanlyniadau. |

| Cryfderau a datblygiadau | Risgiau a heriau |
|---|---|
| Mae'r Bwrdd wedi pennu gweledigaeth glir i gyflenwi 'gofal cwbl integredig sy'n canolbwyntio ar anghenion yr unigolyn'. Cyflawnir y weledigaeth hon drwy chwe nod rhyng-gysylltiedig.<br>Mae'r CTCI yn cynnwys tair her strategol:<br>• datblygu model gwasanaeth gwledig gan ddarparu gofal yn nes at adref;<br>• bodloni anghenion newid demograffig a chynnydd yn y galw; a<br>• chefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy yn ystod y cyni ariannol.<br>Mae'r CTCI yn anelu i gyflawni tair blaenoriaeth strategol:<br>• Comisiynu<br>• Gwasanaethau sylfaenol a chymunedol<br>• Integreiddio<br>Ceir 10 amcan strategol tanategol, 13 o gynlluniau cyflawni a thair strategaeth galluogi.<br>Mae'r Rhaglen Drawsnewid yn cynnwys pedair rhaglen graidd a phedair rhaglen alluogi.<br>Mesurir llwyddiant yn ôl y cynnydd yn saith parth Fframwaith Canlyniadau'r GIG. | Ychydig o sylw a roddir i'r chwe nod yn y CTCI, ac mewn dogfennau strategol eraill, gyda ffocws cynyddol ar Fframwaith Canlyniadau'r GIG. Ceir cyfleoedd i brofi dilysrwydd y gwerthoedd presennol yn y dyfodol, ac i atgyfnerthu cysylltiadau â fframweithiau perfformiad eraill yn rhan o'r gwaith i ailwampio'r CTCI. |
| Cymeradwywyd Cynllun Blynyddol 2015/16 ym mis Ebrill 2015, ac mae'r cynllun hwnnw wedi'i drefnu'n glir o amgylch y chwe nod y cytunwyd arnynt yn lleol. Mae'r Bwrdd wedi pennu blaenoriaethau strategol allweddol i gyd-fynd â phob un o'r rhain ar gyfer 2015-16. I gefnogi pob blaenoriaeth, ceir nifer o amcanion, mesurau a chanlyniadau gweithredol, y ceir cysylltiadau'n ôl rhyngddynt â thargedau neu ysgogiadau lleol a chenedlaethol.<br>Mae adroddiadau i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Bwrdd ar gyflawniad yn erbyn amcanion y cynllun blynyddol yn ddigon cynhwysfawr a chlir i gynnal her. | Nid yw'n glir a yw'r Bwrdd Iechyd yn monitro ac yn adrodd ar gynnydd yn erbyn tasgau unigol y CTCI, gan nad yw pob un o'r rhain wedi'u nodi yn y cynllun blynyddol cyfredol. Fodd bynnag, mae'r Cynllun Blynyddol ar gyfer 2016-17 yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi ei fod yn bwriadu sicrhau ei fod yn gwbl gyson â'r CTCI ar ei newydd wedd. |

| Cryfderau a datblygiadau | Risgiau a heriau |
|---|---|
| Wrth gymeradwyo'r CTCI ym mis Mehefin 2015, nododd Llywodraeth Cymru fod ganddo fân ofynion yn gysylltiedig â'r angen i'r Bwrdd Iechyd gynhyrchu cyfres o Gynlluniau Cyflawni Gwasanaeth GIG Cymru y ceir cysylltiadau rhyngddynt â'r CTCI. | Araf fu'r cynnydd wrth ddatblygu ymatebion i'r cynlluniau cyflawni cenedlaethol. Derbyniodd y Bwrdd Iechyd fod angen iddo flaenoriaethu gwaith i ddatblygu'r cynlluniau mwyaf pwysig oherwydd prinder adnoddau o fewn y tîm cynllunio a pherfformiad. Heb sefydlu'r cynlluniau hyn, ceir risg na fydd gwaith cynllunio gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gyfredol. |
| Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd ddeall a dylanwadu ar y cynlluniau niferus y mae darparwyr yn eu datblygu ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir mewn ardaloedd o'i amgylch, yng Nghymru ac yn Lloegr. Dengys yr Adroddiad Cynllunio Strategol a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Awst 2015 fod y Bwrdd Iechyd yn deall yr heriau hyn. | Mae gan ddarparwyr yn Lloegr eu problemau a'u hansefydlogrwydd eu hunain, hy, mae Ymddiriedolaeth GIG Dyffryn Gwy yn destun mesurau arbennig; cynigion gan Ymddiriedolaeth Ysbytai GIG Amwythig a Telford i symud gwasanaethau i Telford; ymddeolodd Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Ysbyty Orthopaedig Robert Jones ac Agnes Hunt ym mis Medi 2015; ac fe geir problemau hefyd yn gysylltiedig ag amseroedd aros. Bydd angen cadw'r rhain mewn cof er mwyn monitro'r risgiau i ddarpariaeth gwasanaeth ac ansawdd gofal.<br>Mae'r defnydd sylweddol o adnoddau er mwyn ymgysylltu mewn modd ystyrlon â'r holl ddarparwyr hefyd yn her benodol arall i'r Bwrdd Iechyd. |
| Mae gwaith yn mynd rhagddo i atgyfnerthu'r Gyfarwyddiaeth Cynllunio a Pherfformiad o fewn y sefydliad presennol. Dylai'r tîm newydd fod wedi'i sefydlu erbyn mis Ebrill 2016. | Gadawodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad ym mis Mai 2015. Penodwyd cyfarwyddwr dros dro yn gyflym, ond nid yw'r swydd wedi cael ei llenwi'n barhaol eto. |
| Mae trefniadau cadarnach ar waith i fonitro'r CTCI, drwy'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. | |

## Strwythur ac arweinyddiaeth drefniadol

Mae Rhaglen Gwella Llywodraethu gynhwysfawr, tîm cryfach a phortffolios diwygiedig o fewn y Weithrediaeth yn rhoi’r Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa well i gyflawni ei amcanion strategol. Yr her yn awr yw sicrhau bod digon o wytnwch, gallu a phrofiad yn nhîm y Weithrediaeth i gyflawni newid ar gyflymder cynaliadwy, i atgyfnerthu’r capasiti rheoli gweithredol, ac i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn taro ar y cydbwysedd cywir rhwng trefniadau cyflenwi mewn ardaloedd lleol penodol a threfniadau cyflenwi ar gyfer Powys yn ei chyfanrwydd.

**22.** Ceir crynodeb o’r canfyddiadau sy’n sail i’r casgliad hwn yn Nhabl 3.

Tabl 3: strwythur trefniadol

| Cryfderau a datblygiadau | Risgiau a heriau |
|---|---|
| Cafodd y Prif Weithredwr ei phenodi fel Prif Weithredwr dros dro ym mis Chwefror 2015, ac yna ei phenodi’n barhaol ym mis Mawrth 2015. Bu hyn yn fodd i greu sefydlogrwydd, gan leihau hyd yr eithaf yr aflonyddwch a allai fod wedi cael ei achosi yn dilyn ymadawiad y Prif Weithredwr blaenorol ym mis Ionawr 2015. | |
| Mae Rhaglen Gwella Llywodraethu 2015-16 – 2016-17, a gymeradwywyd y mis Hydref 2015, yn pennu rhaglen waith glir a phriodol er mwyn ymdrin â’r gwendidau yn y trefniadau llywodraethu a amlygwyd yn Adroddiad Archwilio Blynyddol 2014.<br>Bydd datblygu Lawlyfr Llywodraethu Integredig yn gwneud y trefniadau llywodraethu’n fwy eglur ar draws y sefydliad. | |
| Atgyfnerthodd y Prif Weithredwr ei Thîm Gweithredol yn ystod y flwyddyn gan benodi unigolion i swyddi parhaol a chanddynt rolau, cylchoedd gorchwyl a chyfrifoldebau wedi’u hailddiffinio, a newidiadau i’r portffolios. Mae gan Swyddogion Gweithredol amcanion blynyddol clir, ac maent yn deall yn glir beth yw eu rolau a’u cyfrifoldebau unigol. | Er gwaethaf pob ymdrech ar ran y Bwrdd Iechyd, bu’n anodd penodi Cyfarwyddwr Meddygol, er bod unigolion wedi cael eu penodi i’r swydd dros dro. Er bod meysydd hollbwysig fel ailddilysu wedi’u cynnwys, yr oedd diffyg momentwm ar draws y maes portffolio hwn. |

| Cryfderau a datblygiadau | Risgiau a heriau |
|---|---|
| Mae'r Prif Weithredwr wedi sicrhau mwy o drylwyredd o ran atebolrwydd y Weithrediaeth. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd Cyflawniad a Pherfformiad Gweithredol misol. Mae hyn o gymorth i sicrhau mwy o ffocws ar gynnydd yn erbyn canlyniadau'r GIG, cynlluniau arbed a'r angen i ysgogi gwelliant drwy ymateb i argymhellion yn adroddiadau archwilwyr a rheoleiddwyr eraill. | Mae tîm gweithredol bach yn ysgwyddo portffolios mawr. Yr her bellach yw sicrhau digon o wytnwch, capasiti a phrofiad yn nhîm y Weithrediaeth er mwyn cyflawni newid ar gyflymder cynaliadwy. |
| Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni newidiadau angenrheidiol i'r strwythurau arwain a rheoli ar gyfer ei Ardaloedd Lleol a'i Gyfarwyddiaethau o dan y Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Chymunedol. Mae hyn yn lleihau nifer yr ardaloedd i ddwy: y Gogledd a'r De (sy'n cynnwys y Canolbarth gynt). Mae gwasanaethau Anableddau Dysgu yn parhau i gael eu rheoli ar draws Powys tra bo Gwasanaethau Plant yn cael eu rheoli drwy Ardal y Gogledd. | Nid yw cydbwysedd y cyfrifoldebau canolog a chyfrifoldebau'r ardaloedd yn glir eto, ac mae angen rhoi sylw pellach i hyn. |
| Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau sylweddol i atgyfnerthu capasiti ac atebolrwydd gweithredol:<br>• buddsoddi i ddatblygu gallu arweinyddol rheolwyr gweithredol; a<br>• chreu Grŵp Swyddogion Gweithredol a Rheolwyr. | Yr her yw adeiladu gwytnwch a chynaliadwyedd y sefydliad drwy ddatblygu capasiti a gallu rheolwyr gweithredol ymhellach. |

## Effeithiolrwydd y Bwrdd

Mae'r Bwrdd wedi gwneud cynnydd da o ran atgyfnerthu ei effeithiolrwydd cyffredinol, ond mae angen gwneud gwaith pellach cyn y gall ddangos ei fod yn cynnal arfer da a'r gallu i arloesi. Mae aelodau'r Bwrdd yn arddangos ymrwymiad clir i fod yn agored, i herio mewn ffordd adeiladol ac i wella ansawdd.

**23.** Ceir crynodeb o'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn Nhabl 4.

Tabl 4: Effeithiolrwydd y Bwrdd

| Cryfderau a datblygiadau | Risgiau a heriau |
| --- | --- |
| Mae’r Cadeirydd wedi cael ei benodi ers ychydig dros flwyddyn ac yn gwneud cynnydd da o ran ymdrin â diffygion yn y trefniadau llywodraethu a amlygwyd yn asesiad strwythuredig y llynedd. | Mae’r Bwrdd yn dal i fod y brin o un aelod a chanddo gefndir Undeb Llafur. Er gwaethaf sawl ymdrech i annog ymgeiswyr, mae’r swydd hon wedi bod yn wag ers peth amser. |
| Penodwyd pum Aelod Annibynnol newydd rhwng diwedd 2014 a diwedd 2015, sy’n cynrychioli newid sylweddol. Cafodd y broses recriwtio ei rheoli’n dda, a chanlyniad hynny oedd trosglwyddiad llyfn i Fwrdd newydd.<br>Mae’r aelodau Bwrdd newydd wedi cymryd rhan mewn rhaglen ymsefydlu gynhwysfawr, sydd wedi arwain at drosglwyddo’n llyfn i’r Bwrdd newydd. Mae hyn hefyd wedi’u helpu i ddod i ddeall y sefydliad yn gyflym, a sut i gyflawni eu rôl. Ym mis Rhagfyr 2015, dyrannwyd rolau arweiniol i’r Bwrdd neu rolau ‘eiriol’ yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru.<br>Mae aelodau’r Bwrdd yn arddangos ymrwymiad clir i fod yn agored ac i wella ansawdd, ac mae’n amlwg bod safon yr her a’r drafodaeth wedi codi yng nghyfarfodydd y Bwrdd a’r pwyllgorau.<br>Roedd adroddiad busnes blynyddol y Bwrdd ym mis Mehefin 2015 yn cynnwys atodiadau defnyddiol ar Safonau Busnes ar gyfer Papurau Bwrdd a Moesddefodau’r Bwrdd. Roedd y dogfennau hyn yn pwysleisio pa mor bwysig oedd sicrhau bod papurau Bwrdd wedi’u hysgrifennu’n dda, fel bo modd i Aelodau Annibynnol ddeall y prif faterion yn rhwydd, a chyflawni’r rôl o herio perfformiad mewn modd adeiladol.<br>Mae Rhaglen Datblygu’r Bwrdd wedi cael ei sefydlu gyda sesiynau i ddarparu cymorth parhaus i aelodau annibynnol i’w galluogi i gyflawni eu rôl. | |
| Mae gwaith yn parhau i wella perfformiad hunanasesedig y Bwrdd Iechyd yn erbyn safonau llywodraethu ac atebolrwydd, sydd ar hyn o bryd ar ganol y matrics aeddfedrwydd:<br>• ‘mae’r Bwrdd Iechyd yn datblygu cynlluniau a phrosesau a gall ddangos cynnydd yn rhai o’i brif feysydd gwella.’ | Yr her yn y pen draw yw cyrraedd lefel uchaf y matrics aeddfedrwydd, fel bod:<br>• ‘modd i’r Bwrdd Iechyd ddangos ei fod yn cynnal arfer da a’r gallu i arloesi, a rennir drwy’r holl sefydliad/busnes, ac y gall eraill ddysgu yn ei sgil.’ |

| Cryfderau a datblygiadau | Risgiau a heriau |
| --- | --- |
| Bellach, mae'r Bwrdd wedi sefydlu'r trefniadau canlynol sy'n cefnogi llywodraethu da a gweithrediad effeithiol y Bwrdd:<br>• Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi'i ddrafftio.<br>• Rhaglen flynyddol o fusnes y Bwrdd a chofnod effeithiol o gamau gweithredu.<br>• Papurau'n cael eu cyflwyno ymlaen llaw cyn cyfarfodydd, a gostyngiad yn nifer y papurau a gyflwynir ar y diwrnod.<br>• Cynllun dirprwyo diwygiedig wedi'i gymeradwyo ym mis Mehefin 2015 i gysoni'r nodau strategol a'r cyfrifoldebau cyflawni â phortffolios diwygiedig y Weithrediaeth.<br>• Mae'n arddangos parodrwydd i fod yn agored a didwyll:<br>– mae safle mewnrwyd newydd yn rhoi mynediad rhwydd i bapurau'r Bwrdd;<br>– amrywiaeth gynyddol o wybodaeth am berfformiad ar gael i'r cyhoedd;<br>– papurau pob pwyllgor ar gael i'r cyhoedd, ar wahân i'r pwyllgor cyllid a pherfformiad; a<br>– gwelwyd lefelau craffu a herio gwell yng nghyfarfodydd y Bwrdd, gydag ymatebion da ar y cyfan gan y Swyddogion Gweithredol. | Mae'r holl bwyllgorau'n cyflwyno adroddiadau sicrwydd rheolaidd i'r Bwrdd, er nad yw'r adroddiadau hynny'n deillio o gyfarfod diweddaraf y pwyllgor dan sylw.<br>Mae gwaith pellach ar y gweill i gwblhau ac ymwreiddio'r trefniadau ar gyfer Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. |
| Mae rôl Ysgrifennydd y Bwrdd yn gliriach, sef cynorthwyo'r Cadeirydd a gwasanaethu'r Bwrdd a'i bwyllgorau, ac mae agendâu, papurau a chofnodion yn cael eu gweinyddu mewn modd mwy effeithlon yn sgil hynny. | |
| Roedd polisïau wedi dyddio heb unrhyw broses ar waith i'w hadolygu. Ymatebodd y Bwrdd Iechyd mewn modd cadarnhaol i adolygiad archwilio mewnol beirniadol, ac mae ganddo bellach fecanweithiau i adolygu'r holl bolisïau, ac i ddarparu'r polisïau hynny i'r cyhoedd ar y wefan. | |

## Gweithrediad is-bwyllgorau'r Bwrdd

Mae strwythur pwyllgorau'r Bwrdd yn cefnogi trefniadau llywodraethu da, ac fe geir tystiolaeth bod y trefniadau'n gwella'n barhaus. Fodd bynnag, dim ond yn ddiweddar y cyflawnwyd rhai o'r newidiadau, felly nid ydynt wedi'u hymwreiddio eto, ac mae angen gweithredu cynlluniau i ymdrin ag unrhyw fylchau sy'n weddill o ran llywodraethu ansawdd yn llawn.

**24.** Ceir crynodeb o'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn Nhabl 5.

Tabl 5: gweithrediad is-bwyllgorau'r Bwrdd

| Cryfderau a datblygiadau | Risgiau a heriau |
|---|---|
| Mae strwythur pwyllgorau ac is-bwyllgorau'r Bwrdd yn trafod gofynion busnes a llywodraethu'r sefydliad, heb unrhyw fylchau na dyblygiadau amlwg. | Mae angen i'r Bwrdd Iechyd barhau ar y llwybr cadarnhaol hwn o ran gweithrediad y pwyllgorau. |
| Yn sgil newidiadau i'w strwythur, i'w swyddogaeth a'u haelodaeth, mae pwyllgorau'r Bwrdd yn gallu rhoi cefnogaeth well i'r Bwrdd wrth iddo gyflawni ei amcanion strategol. Mae hyn yn cynnwys:<br>• cylchoedd gorchwyl diwygiedig ar gyfer y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad, y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Phwyllgor y Gweithlu a Datblygu Trefniadol, a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Medi 2014;<br>• cylch gorchwyl diwygiedig ar gyfer y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth a'r Pwyllgor Sicrwydd Iechyd Meddwl ym mis Ebrill 2015; a<br>• phenodiad diweddar Aelodau Annibynnol i gadeirio pwyllgorau fu gynt yn cael eu cadeirio gan Gadeirydd y Bwrdd. | Nid yw cylch gorchwyl Pwyllgor y Cronfeydd Elusennol wedi cael ei adolygu ers mis Ebrill 2010, a dylid ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni rheoliadau cyfredol.<br>Nid yw cylch gorchwyl y Pwyllgor Sicrwydd Iechyd Meddwl ar gael yn rhwydd ar y rhyngrwyd.<br>Nid yw cylchoedd gorchwyl y pwyllgorau'n rhoi esboniad clir o'r cysylltiad rhwng trefniadau gweithredol a lleol a'r pwyllgorau. |
| Mae presenoldeb mewn cyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgor yn dda ar y cyfan, er y cafwyd rhai achosion o ddiffyg cworwm mewn rhai cyfarfodydd pwyllgor, ac fe ganslwyd rhai cyfarfodydd pwyllgor yn ystod yr haf. Er mwyn ymateb i'r problemau'n gysylltiedig â phresenoldeb a chanslo cyfarfodydd, mae cyfarfodydd yn cael eu hailamserlennu yn 2016 fel nad ydynt yn cyd-daro â gwyliau'r ysgol. | Ceir heriau o hyd o ran sicrhau bod aelodau pwyllgor yn derbyn yr wybodaeth gywir mewn modd amserol er mwyn cefnogi gweithrediad effeithiol y pwyllgorau. |

| Cryfderau a datblygiadau | Risgiau a heriau |
|---|---|
| Mae'r Pwyllgor Archwilio yn fwyfwy effeithiol wrth gefnogi trefniadau llywodraethu a rheolaeth fewnol y sefydliad:<br>• Cynllun gwaith a chofnod o gamau gweithredu ar waith.<br>• Mae'r cynllun gwaith yn cynnwys adolygiad blynyddol o:<br>– systemau sicrwydd a rheoli risg, rheolau sefydlog a chyfarwyddiadau ariannol sefydlog;<br>– cylchoedd gorchwyl; a<br>– chydberthnasoedd a rhaglenni gwaith pwyllgorau eraill.<br>Mae'r trefniadau i ymateb i argymhellion archwilio a monitro eu gweithrediad wedi cael eu hailwampio a'u hatgyfnerthu:<br>• mae protocol wedi'i gytuno ar gyfer archwiliad allanol o berfformiad;<br>• mae'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn holl adroddiadau SAC ac ymatebion y rheolwyr;<br>• mae cyfrifoldeb arweiniol wedi'i sefydlu ar y Weithrediaeth ar gyfer llunio/cyflwyno ymateb y rheolwyr, a bod yn bresennol mewn Pwyllgorau Archwilio wrth gyflwyno adroddiadau;<br>• mae cofnod olrhain wedi'i hen sefydlu ac yn cael ei gynnwys ym mhob Pwyllgor Archwilio;<br>• mae'r Pwyllgor Archwilio, lle bo'n briodol, yn cyfeirio adroddiadau/camau gweithredu i sylw pwyllgorau eraill i'w monitro'n barhaus; a<br>• gwelliannau amlwg yn ymatebion y Weithrediaeth i adroddiadau archwilio a gostyngiad yn nifer yr argymhellion sy'n bodoli ers tro, ac sydd heb eu cwblhau. | Mae sicrhau trawsgyfeirio priodol rhwng y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, ee adroddiadau archwilio clinigol yn her.<br>Mae angen hunanasesiad blynyddol o effeithiolrwydd:<br>• Er mwyn gwella gweithrediad<br>• Yn sail ar gyfer blaengynllun gwaith<br>Mae angen cynnal y momentwm wrth ymdrin ag argymhellion o adroddiadau archwilio sydd heb eu cyflawni, fel nad yw'r argymhellion yn cronni unwaith eto.<br>Mae angen gwneud gwaith pellach i wella strwythur y cofnod archwilio er mwyn dangos cynnydd. |

| Cryfderau a datblygiadau | Risgiau a heriau |
|---|---|
| Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn parhau i aeddfedu a gwella'r trefniadau:<br>• mae'r trefniadau ar gyfer rheoli agendâu yn gweithio'n dda, yn sicrhau cymaint o amser ag sy'n bosibl ar gyfer craffu ac yn cefnogi trafodaeth effeithiol;<br>• rhaglen waith a chofnod o gamau gweithredu wedi'u sefydlu;<br>• y Cyfarwyddwr Nyrsio sydd bellach yn arwain Pwyllgor y Weithrediaeth, ac mae'n ymdrin â rhai materion ansawdd a diogelwch sy'n bodoli ers tro; ac<br>• mae dulliau ffurfiol o sicrhau ansawdd a mecanweithiau adrodd yn cael eu datblygu, ee defnyddio pecyn cymorth Her y 15 Cam. | Dengys heriau ansawdd a diogelwch fod angen gwelliannau pellach ar fyrder yn gysylltiedig â'r canlynol:<br>• Unioni pethau<br>• Dysgu yn sgil digwyddiadau<br>• Dangosyddion perfformiad ansawdd<br>Bydd yn bwysig i'w Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch gael hyder yn llif o sicrwydd a ddaw o du'r is-bwyllgorau a'r grwpiau rheoli, a'r ardaloedd. Ar hyn o bryd, ni wyddys pa mor effeithiol yw'r trefniadau hyn. Er bod trefniadau'n cael eu sefydlu i gynnal adolygiadau sicrwydd lleol, mae angen i'r Bwrdd Iechyd fapio'r strwythurau is-bwyllgor ac asesu'r llif o sicrwydd drwy'r trefniadau hyn, yn gysylltiedig â datblygu ei fframwaith sicrwydd ansawdd. |
| Mae Aelodau Annibynnol yn craffu ac yn herio'n dda:<br>• gan ddehongli a defnyddio gwybodaeth reoli;<br>• gan driongli gwybodaeth o wahanol ffynonellau, gan gynnwys arsylwadau; a<br>• chan gynnal pwysau i adrodd ar feysydd lle na fu'r perfformiad yn dda ee, archwiliadau hylendid dwylo.<br>Mae'r Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn canolbwyntio ar:<br>• fynd ar drywydd materion gyda rheolwyr; a<br>• cheisio sicrwydd bod y camau perthnasol yn cael eu cymryd yn ddigon cyflym.<br>Caiff y rhan fwyaf o bapurau ar gyfer cyfarfodydd eu cyhoeddi ymlaen llaw, ac mae llai o bapurau'n cael eu cyflwyno ar y diwrnod, sydd yn well na'r llynedd. | Mae angen ffocws cryfach ar roi sicrwydd ynghylch canlyniad camau gweithredu:<br>• er mwyn rhoi mwy o hyder i Aelodau Annibynnol ynghylch y sicrwydd a roddir; a<br>• tharo cydbwysedd iach o ymddiriedaeth a her rhwng Aelodau Annibynnol a Swyddogion Gweithredol. |

## Gwybodaeth reoli

Mae'r Bwrdd ar y cyfan yn derbyn gwybodaeth ddigonol i gefnogi gwaith craffu a phenderfynu effeithiol, er bod angen mireinio mwy ar y trefniadau ar gyfer adrodd

**25.** Ceir crynodeb o'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn Nhabl 6.

Tabl 6: gwybodaeth reoli

| Cryfderau a datblygiadau | Risgiau a heriau |
|---|---|
| Cymeradwywyd Fframwaith Rheoli Perfformiad (FfRhP) gan y Bwrdd ym mis Mehefin 2015:<br>• crynodeb lefel uchel wedi'i ysgrifennu'n dda sy'n disgrifio maint y dasg o greu diwylliant o welliant parhaus; ac<br>• yn Ch2 y mae ar y trywydd iawn i gyflawni ei gynllun i weithredu'r fframwaith. | Mae'r Bwrdd Iechyd yn realistig ynglŷn â'r ffaith bod angen newid diwylliannol mawr er mwyn ymwreiddio'r Fframwaith Rheoli Perfformiad. |
| Mae'r AIB ym mis Hydref 2015 yn dangos bod adroddiadau ar berfformiad wedi gwella'n sylweddol ers 2014:<br>• Mae'r AIB yn cefnogi trafodaeth lawn ar faterion perfformiad yn holl gyfarfodydd y Bwrdd.<br>• Y mae'n llawer cliriach na'r fersiynau blaenorol, ac mae'n llawer haws asesu'r perfformiad cyffredinol yn erbyn mesurau allweddol, heb ormodedd o wybodaeth.<br>• Mae'r adroddiad yn darparu cymysgedd dda o naratif, gwybodaeth a data. Defnydd eang o raffeg, codau lliw a gwybodaeth am dueddiadau.<br>• Mae cynnwys y naratif yn erbyn pob mesur yn rhoi trosolwg o'r prif faterion, yr amrywio a'r cynnydd hyd yma. Cyfeirir yn aml mewn naratifau at gamau unioni, ac weithiau pwy sy'n gyfrifol am eu cyflawni.<br>• Mae'n sicrhau bod strwythur yr AIB yn gyson â strwythur y CTCI a Fframwaith Canlyniadau'r GIG. | Gwaith ar y gweill yw'r AIB o hyd. Mae angen gwneud gwaith pellach i ymdrin â'r canlynol:<br>• Yr oedd rhai bylchau yn yr ymdriniaeth, heb unrhyw ddangosyddion ar gyfer y canlynol:<br>  – Gofal gydag urddas<br>  – Profiad cleifion<br>• Nid yw'r adroddiad yn gwbl integredig gan nad yw'n cynnwys adroddiadau ariannol. Mae gwaith ar y gweill i integreiddio adroddiadau ariannol yn well i'r AIB.<br>• Gallai'r crynodeb gynnig mwy o fewnwelediad. Nid yw'n rhoi 'crynodeb' o berfformiad – dim ond rhestr syml ydyw o feysydd lle mae perfformiad naill ai wedi gwella neu ddirywio.<br>• Mae angen gwneud gwaith pellach i feincnodi â sefydliadau eraill a defnyddio rhagolygon.<br>• Mae'r cyfrifoldeb am barthau perfformiad wedi'u halinio â phortffolios swyddogion gweithredol arweiniol, ond nid ydynt wedi'u neilltuo i staff enwebedig nac i bwyllgorau penodol.<br>• Cyfleu'n glir pa gamau ychwanegol sydd eu hangen, a phwy ddylai weithredu, er |

| Cryfderau a datblygiadau | Risgiau a heriau |
|---|---|
| | mwyn gwella pan fydd perfformiad yn erbyn targedau wedi dirywio.<br>• Mae angen ymdrin â phryderon ynghylch ansawdd y data sy'n sail i'r AIB ar fyrder, ee, mae angen datblygu proses sicrhau ansawdd data.<br>• Adroddiadau annigonol ynghylch gwasanaethau a gomisiynir. |
| Mae gwelliannau i ansawdd gwybodaeth yn cefnogi gwaith craffu a phenderfynu o fewn y Bwrdd.<br>Defnydd da o adroddiadau eithrio yn y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ym mis Hydref 2015 er mwyn cael sicrwydd ynghylch meysydd lle cafwyd perfformiad gwael. | |

## Rheolaethau mewnol a rheoli risg

Mae'r rheolaethau mewnol bellach yn effeithiol ar y cyfan o ran bodloni gofynion sicrwydd, ond mae angen gwella rhai agweddau ymhellach, gan gynnwys rheoli risg a'r defnydd o archwiliadau clinigol

**26.** Ceir crynodeb o'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliad hwn yn Nhabl 7.

Tabl 7: rheolaethau mewnol a rheoli risg

| Cryfderau a datblygiadau | Risgiau a heriau |
|---|---|
| Mae gwaith sylweddol wedi cael ei gyflawni i lunio amrywiaeth o fframweithiau sicrwydd yn sail ar gyfer trefniadau llywodraethu:<br>• System sicrwydd y Bwrdd a gymeradwywyd ym mis Rhagfyr 2014<br>• Fframwaith sicrwydd risg a gymeradwywyd ym mis Mehefin 2015<br>• Fframwaith sicrwydd perfformiad a gymeradwywyd ym mis Mehefin 2015<br>• Fframwaith gwerthoedd ac ymddygiad a gymeradwywyd ym mis Mehefin 2015 | Mae angen gwneud gwaith pellach er mwyn sicrhau bod y fframweithiau sicrwydd yn gweithio'n ymarferol ac yn cysylltu â'i gilydd mewn modd priodol.<br>Mae fframwaith sicrhau ansawdd ar gyfer gwasanaethau a ddarperir ac a gomisiynir yn cael ei ddatblygu, a bydd yn weithredol o fis Ionawr 2016. |

| Cryfderau a datblygiadau | Risgiau a heriau |
| --- | --- |
| Mae'r rheolaethau mewnol yn effeithiol ar y cyfan:<br>• gwasanaeth atal twyll llawer gwell, a'r cynnydd yn amlygrwydd y swyddog atal twyll yn creu mwy o hyder ymhlith y staff i adrodd am bryderon a chynnydd mewn gwaith ymchwiliol;<br>• adroddwyd ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLIB) a'r Datganiad Ansawdd Blynyddol (DAB) yn unol â'r gofynion;<br>• mae'r DAB yn glir, yn onest, yn hawdd ei ddeall ac yn hygyrch i'r' cyhoedd; a<br>• rhaglen o waith archwilio mewnol a gwaith archwilio cyfalaf wedi'i chynllunio/ chyflawni'n dda. | Cyfle pellach i ddefnyddio'r DLIB, y DAB a'r Safonau Iechyd a Gofal i gefnogi gwelliant a dysgu parhaus:<br>• Atgyfnerthu datganiadau sicrwydd gweithredol<br>• Symud tuag at ddull sy'n canolbwyntio llai ar flynyddoedd |
| Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ar gael ar y rhyngrwyd. | Mae angen diweddaru'r Strategaeth a'r Polisi Rheoli risg yn dilyn adroddiad archwilio mewnol ym mis Mai 2015, nad oedd yn cynnig rhyw lawer o sicrwydd. Mae angen cadarnhau'r mecanwaith ar gyfer uwchgyfeirio risgiau o'r gofrestr risg weithredol i'r Bwrdd.<br>Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i ddeall awydd y sefydliad am risg. Bydd hyn yn bwysig er mwyn cael yr holl wybodaeth am ddull y Bwrdd Iechyd o reoli risg. |
| Mae gan y Bwrdd Iechyd gynllun archwilio clinigol i gefnogi ei agenda wella. Mae'r cynllun yr adroddwyd amdano i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ym mis Mehefin 2015 yn rhoi gwybodaeth glir am gynnydd wrth gyflawni'r ystod o archwiliadau clinigol lleol ac Adolygiadau Archwilio a Chanlyniad Cenedlaethol Cymru Gyfan.<br>Cafodd y Strategaeth Archwilio Clinigol 2013-14 – 2015-16 ei chymeradwyo yn 2013. Mae gwaith pellach ar y gweill i adolygu a datblygu'r strategaeth hon. | Nid yw'r gwasanaeth archwilio clinigol yn cyflawni ei rôl yn llawn eto o ran gwella ansawdd, ac nid yw wedi sefydlu ei gyfraniad tuag at roi sicrwydd i'r Bwrdd. Wrth adolygu'r strategaeth archwilio clinigol, dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried y cysylltiadau rhwng archwilio clinigol a risgiau ac amcanion strategol. |

| Cryfderau a datblygiadau | Risgiau a heriau |
|---|---|
| Mae gwaith yn mynd rhagddo i weithredu ac ymwreiddio’r Safonau Iechyd a Gofal newydd:<br>• Ym mis Ebrill 2015, cyflwynwyd papur i’r Bwrdd yn cyhoeddi lansiad y safonau newydd.<br>• Ym mis Mehefin, adroddodd papur i’r Bwrdd fod gwaith pellach ar y gweill i ddatblygu ac ymwreiddio’r safonau newydd, a ddefnyddir yn sail ar gyfer gwaith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.<br>• Mae grŵp llywio yn datblygu’r gwaith hwn ac mae cynllun clir ar waith. Mae’r Safonau Iechyd a Gofal bellach yn eitem sefydlog ar agenda’r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. | |

## Llywodraethu Gwybodaeth

Mae’r Bwrdd Iechyd wedi atgyfnerthu ei drefniadau llywodraethu gwybodaeth drwy gyflwyno strategaeth a chynllun gweithredu wedi’u diweddaru, ac mae ei Bwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth yn gweithredu’n fwy effeithiol, er bod angen mynd ati ynghynt i ymdrin â materion uchel eu risg sy’n codi’n barhaus

**27.** Ceir crynodeb o’r canfyddiadau sy’n sail i’r casgliad hwn yn Nhabl 8.

Tabl 8: llywodraethu gwybodaeth

| Cryfderau a datblygiadau | Risgiau a heriau |
|---|---|
| Mae’r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth yn dechrau gweithio’n fwy effeithiol, ac wedi cyfarfod yn rheolaidd yn 2015. Mae ganddo bellach gynllun ar waith yn disgrifio’r ffynonellau sicrwydd. | |

| Cryfderau a datblygiadau | Risgiau a heriau |
|---|---|
| Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella ei drefniadau i graffu ar faterion llywodraethu gwybodaeth. Mae hyn yn cynnwys ffocws cryfach ar elfennau sicrwydd allweddol a rheoli risgiau:<br>• Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth wedi datblygu rhaglen waith gliriach. Mae hyn yn cynnwys meysydd fel adroddiadau cynnydd yn erbyn y strategaeth a chydymffurfiaeth yn erbyn safonau cenedlaethol.<br>• Mae'r Bwrdd Iechyd wedi diweddaru ei Strategaeth a Chynllun Gweithredu Llywodraethu Gwybodaeth 2015-18. Mae'r ddogfen honno'n cynnwys cynllun gweithredu clir ac yn ceisio ymdrin ag unrhyw bryderon mewnol/allanol. | Ceir rhai meysydd lle mae'r cynnydd yn parhau i fod yn araf:<br>• lleihau nifer yr achosion o dorri'r Ddeddf Diogelu Data;<br>• gweithredu trefniadau adfer data a pharhad busnes;<br>• problemau gydag ansawdd data; a'r<br>• niferoedd isel sy'n manteisio ar hyfforddiant ar faterion fel trin gwybodaeth.<br>O hyn allan, mae angen i'r Pwyllgor sicrhau y canolbwyntir ar feysydd uchel eu risg wrth graffu, ac y sicrheir cefnogaeth er mwyn ymdrin â materion sy'n codi'n gyson. |
| Mae gwaith ar y cyd â'r Awdurdod Lleol wedi cynyddu gwytnwch y gwasanaeth TGCh ac wedi lleihau risgiau'n gysylltiedig â TG. Mae'r cytundeb Adran 33 yn creu sail dda ar gyfer mwy o gydweithio. | |

# Ffactorau sy'n galluogi defnydd effeithiol o adnoddau

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu agenda uchelgeisiol ar gyfer newid ac yn gweithio i atgyfnerthu ei drefniadau ar gyfer cyfathrebu, ymgysylltu a gwaith partneriaeth er mwyn cefnogi trawsnewid. Ceir risgiau sylweddol o hyd yn gysylltiedig â'r ystâd, serch hynny.

**28.** Wrth ddod i'r casgliad hwn, canfuom:

- fod y Bwrdd Iechyd wedi cyfleu elfennau allweddol ei raglen drawsnewid, a bod angen iddo sicrhau ei fod yn gallu ysgogi'r newidiadau angenrheidiol i'r dull o gyflenwi gwasanaethau;
- bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd sylweddol i ymdrin â'r heriau o ran ei ystâd a'i swyddogaeth ystadau, ond bod angen gwneud llawer mwy o waith i wella cyflwr gwael yr ystâd; a
- bod gwaith partneriaeth gyda'r awdurdod lleol yn mynd rhagddo'n dda, ceir cyfathrebu mwy tryloyw â'r cyhoedd, ond bod llawer mwy ar ôl i'w wneud i gasglu gwybodaeth am brofiadau cleifion a dysgu yn eu sgil.

**29.** Ceir crynodeb o'r canfyddiadau sy'n sail i'r casgliadau hyn yn yr adrannau a'r tablau canlynol.

## Rheoli newid

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyfleu elfennau allweddol ei raglen drawsnewid, ac mae angen iddo sicrhau ei fod yn gallu ysgogi'r newidiadau angenrheidiol i'r dull o gyflenwi gwasanaethau

**30.** Ceir crynodeb o'r canfyddiadau sy'n sail i'n casgliad yn Nhabl 9.

Tabl 9: rheoli newid

| Cryfderau a datblygiadau | Risgiau a heriau |
|---|---|
| Bellach, mae gan y Rhaglen Drawsnewid arweinyddiaeth glir ar y Weithrediaeth, ac mae'n darparu ffocws i gyflawni ei helfennau cydrannol, sef:<br>• Comisiynu<br>• Rhaglen Diwygio'r Gwasanaeth (tymor canolig)<br>• Rhaglen Model Cyflawni Strategol (tymor hwy)<br>• Dychwelyd gwasanaethau iechyd meddwl oedolion yn fewnol | Mae'r dull o drawsnewid yn gymharol newydd o fewn y Bwrdd Iechyd, ac nid yw llawer o'r byrddau rhaglen ond wedi cael eu sefydlu'n ddiweddar:<br>• sefydlwyd y Bwrdd Rhaglen Diwygio Gwasanaethau ym mis Mai 2015; a<br>• sefydlwyd Bwrdd Rhaglen y Model Cyflawni Strategol ym mis Gorffennaf 2015.<br>Mae angen gwneud gwaith pellach er mwyn sicrhau bod y rhaglenni hyn yn gallu dechrau cyflawni ar y cyflymder angenrheidiol.<br>Mae'n ofynnol hefyd sicrhau cysylltiadau digonol rhwng cynlluniau arbed blynyddol, y CTCI a'r rhaglen drawsnewid. |
| Mewn papur cynllunio strategol a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Awst 2015, rhoddwyd diweddariad clir ar gynnydd a heriau o fewn y rhaglenni newid strategol presennol o amgylch ffin Powys. | Mae angen defnyddio llawer o adnoddau er mwyn creu cysylltiadau â'r rhaglenni newid strategol niferus. |
| Mae'r Pwyllgor Sicrwydd Iechyd Meddwl wedi goruchwylio'r broses o ddychwelyd gwasanaethau iechyd meddwl yn fewnol, ar ôl cyhoeddi cynllun cynhwysfawr i ddychwelyd gwasanaethau i'r Bwrdd Iechyd ar 1 Rhagfyr. Dyma'r elfen gyntaf i gael ei chyflawni yn y rhaglen drawsnewid. | Mae'r broses o drosglwyddo'r gwasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi'i gohirio tan haf 2016. Bydd bwrdd trawsnewid yn goruchwylio'r broses honno, ond bydd angen cynnal asesiad llawn o'r risgiau a'r effaith ychwanegol. |
| Cymeradwywyd y Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiad gan y Bwrdd ym mis Mehefin 2015. Y Fframwaith 'yn alluogwr allweddol wrth ddatblygu diwylliant o welliant parhaus sy'n ofynnol er mwyn dod yn sefydliad sy'n perfformio'n dda'. Mae Sgwrsio i Newid a mentrau eraill ym maes datblygu trefniadol yn paratoi'r staff am y newidiadau o'u blaen. Mae'r gwerthoedd yn cael eu hymgorffori wrth ailwampio'r CTCI. | |

## Ystadau

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth ymdrin â'r heriau'n gysylltiedig â'i ystâd a'i swyddogaeth ystadau, er bod angen gwneud llawer o waith pellach er mwyn ymdrin â chyflwr gwael yr ystâd

**31.** Ceir crynodeb o'r canfyddiadau sy'n sail i'n casgliad yn Nhabl 10.

Tabl 10: ystadau

| Cryfderau a datblygiadau | Risgiau a heriau |
|---|---|
| Er bod risgiau sylweddol yn bodoli ers tro yn gysylltiedig ag ystadau ac asedau, o ran cydymffurfio â iechyd a diogelwch, mae'r Bwrdd Iechyd yn dechrau cymryd camau i gydymffurfio â rheoliadau trydanol, tân ac asbestos. Cymeradwywyd £3 miliwn o gyllid cyfalaf ym mis Ionawr 2015 a oedd yn cynnwys dyraniad cyfalaf dewisol yn ogystal â chyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau penodol, ac fe gwblhawyd y prosiectau hyn erbyn diwedd y flwyddyn.<br>Mae gwaith cydymffurfio pellach wedi'i nodi ar gyfer 2015-16. Mae Achos Cyfiawnhau Busnes wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru er mwyn gwneud cais am gyllid er mwyn ymdrin â gofynion cydymffurfio â risgiau i iechyd a diogelwch. | Ym mis Hydref 2015, cyfeiriai adroddiad cyfalaf Ch2 at faint y gwaith sydd ei angen ar yr ystadau ac er mwyn cydymffurfio, gan amcangyfrif mai gwerth y gwaith hwnnw oedd £68.5 miliwn. Ni fydd modd cyflawni gwelliannau i'r ystâd ar y raddfa hon heb strategaeth ystadau gynhwysfawr.<br>Ceir risg sylweddol i'r ystâd os na ddyfernir cyllid. Os dyfernir cyllid, ceir risg yn gysylltiedig â chyflawni, gan fod bylchau mewn capasiti. |
| Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn derbyn adroddiadau sicrwydd ar faterion iechyd a diogelwch a chydymffurfio o amgylch yr ystâd, ee, cydymffurfiaeth a phrofi dŵr.<br>Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi gweld cynnydd wrth gyflawni'r nifer fawr o argymhellion cydymffurfio o adroddiadau archwilio mewnol. | |

| Cryfderau a datblygiadau | Risgiau a heriau |
| --- | --- |
| Mae'r Bwrdd bellach wedi sefydlu trefniadau i adrodd am sicrwydd ynghylch cyfalaf wrth y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. Gwaith stilio da gan Aelodau Annibynnol o'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ym mis Hydref ynghylch yr angen i gael golwg strategol ehangach ar wariant cyfalaf, ac i sicrhau digon o ffocws ar urddas cleifion wrth ystyried cynlluniau. | Yn dilyn asesiad strwythuredig yn 2014, cyflwynwyd argymhelliad gennym y dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu strategaeth ystadau gadarn sy'n ymdrin â'r prif bryderon ynghylch cydymffurfio. Mae Rhaglen Amlinellol Strategol y Bwrdd Iechyd y trafod gwaith cydymffurfio yn y tymor byr i'r tymor canolig. Wrth symud ymlaen, mae angen datblygu strategaeth ystadau tymor hwy er mwyn dangos sut y caiff ystadau ac asedau eu dylunio ar gyfer modelau llwybr gofal y dyfodol. |
| Cafwyd cynnydd sylweddol wrth ymdrin â gwendidau sy'n bodoli ers tro o fewn y swyddogaeth ystadau, gan symud tuag at wasanaeth sy'n cynnwys sgiliau, cymhelliant a rheolaeth briodol. | |
| Mae cynlluniau ar waith i ailddatblygu Ysbyty Llandrindod. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymdrin â diffygion yn y trefniadau llywodraethu er mwyn sicrhau mecanweithiau sicrwydd angenrheidiol yn ystod y prosiect. | |
| Mae'r Bwrdd Iechyd ar ganol adolygu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer rheolaeth y rhaglen ar prosiectau cyfalaf. Bydd hyn yn fodd i resymoli dulliau gwaith ac i sicrhau ei fod yn nodi ac yn blaenoriaethau ceisiadau am gynlluniau mewn modd mwy tryloyw. | |
| Disgwylir y ceir incwm i gefnogi'r rhaglen gyfalaf yn sgil dau gynllun mawr i waredu'r ystâd:<br>• yn sgil adnewyddu Adain Patti, yn Ysbyty Ystradgynlais, gellir adleoli'r tîm Iechyd Meddwl o'r 'Larches' a werthwyd am £0.136 miliwn; a<br>• rhagwelir y cynhyrchir oddeutu £0.45 miliwn yn sgil gwaredu Mansion House, Ysbyty Bronllys, ac y bydd yr eiddo'n cael ei farchnata ar ddiwedd mis Medi 2015. | Mae gwerthu Mansion House am bris da yn ddibynnol ar ennyn diddordeb yn y farchnad. |

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid a gweithio mewn partneriaeth

Mae gwaith partneriaeth gyda'r awdurdod lleol yn mynd rhagddo'n dda, ceir cyfathrebu mwy tryloyw â'r cyhoedd, ond mae llawer mwy ar ôl i'w wneud i gasglu gwybodaeth am brofiadau cleifion a dysgu yn eu sgil

**32.** Ceir crynodeb o'r canfyddiadau sy'n sail i'n casgliad yn Nhabl 11.

Tabl 11: ymgysylltu â rhanddeiliaid a gweithio mewn partneriaeth

| Cryfderau a datblygiadau | Risgiau a heriau |
|---|---|
| Symudodd yr agenda integreiddio yn gyflym yn 2015. Bellach, mae gan y Bwrdd Iechyd:<br>• dri Aelod Annibynnol â chysylltiadau â Chyngor Sir Powys; ac<br>• mae gan y Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Chymunedol brofiad helaeth o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol o'i waith blaenorol yn yr Alban. | |
| Cafwyd cynnydd pendant gyda strategaeth Powys yn Un a gweithgarwch y bwrdd trawsnewid:<br>• Cytuno ar strwythur Llywodraethu diwygiedig. Bydd y rhain yn bodloni'r cwmpas ehangach a chyflymder y newid sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru o ran integreiddio. Ar yr un pryd â hynny, bydd yn ymdrin â phryderon ynghylch lefelau ymglymiad yr aelodau ac yn bodloni gofynion y Bwrdd Iechyd o ran gwahanu swyddogaethau'r Bwrdd a'r Weithrediaeth.<br>• Mae Bwrdd Rhaglen Datblygu Trefniadol a Datblygu Partneriaethau yn datblygu gwaith sy'n gysylltiedig ag Arwain, Rheoli a Datblygu Tîm. Mae hyn yn cefnogi dull cydlynol er mwyn galluogi unigolion i gydweithio o fewn y ddau sefydliad.<br>• Mae seminar wedi'i gynllunio i ddatblygu gweledigaeth ar y cyd er mwyn ymgysylltu â'r staff.<br>• Sefydlu Timau Gofal Integredig i Bobl Hŷn yn y ddwy ardal ym Mhowys. | Ceir risgiau uchel i'r Bwrdd Iechyd o ran yr agenda integreiddio. Mae angen i'r Bwrdd iechyd sicrhau cadernid trefniadau llywodraethu a pherfformiad sy'n sail i unrhyw weithgarwch integreiddio yn y dyfodol. |

| Cryfderau a datblygiadau | Risgiau a heriau |
|---|---|
| Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran cyfathrebu, gan gynnwys cymeradwyo strategaeth wedi'i diweddaru ym mis Hydref 2015. Nod y strategaeth yw codi ymwybyddiaeth a chynyddu dealltwriaeth ynghylch gwaith y Bwrdd Iechyd drwy sicrhau y ceir ymgysylltu clir, effeithiol ac amserol gyda staff, cleifion, y cyhoedd a rhanddeiliaid.<br>Drwy fuddsoddi mewn cyfathrebu, mae'r Bwrdd yn helpu i ymdrin â gwendidau a amlygwyd mewn adolygiad cyfathrebu annibynnol yn 2014. | Ceir strategaethau ar wahân ar gyfer cyfathrebu'n gyffredinol, ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol a phrofiadau cleifion. Ceir arweinydd gwahanol ar y Weithrediaeth ar gyfer pob strategaeth, a bydd yn bwysig cydgysylltu'r broses o'u cyflawni.<br>Mae angen gwneud gwaith pellach i sicrhau bod yr holl adroddiadau a strategaethau a gymeradwyir ar gael yn rhwydd ar y rhyngrwyd. |
| Dyma dystiolaeth o'r cynnydd o ran cyfathrebu:<br>• Rhaglen Sgwrsio i Newid yn cefnogi ymgysylltiad cyflogeion ar draws y sefydliad;<br>• mae'r Prif Weithredwr yn anfon cardiau cyfarch personol at aelodau unigol o staff er mwyn mynegi diolch;<br>• mae'r sefydliad yn fwy agored yn sgil gwaith graddfa fawr i adnewyddu'r wefan, sy'n golygu bod papurau'r Bwrdd a'r pwyllgorau'n hawdd eu cyrraedd;<br>• mae'r adroddiad blynyddol yn drawiadol ac yn glir;<br>• defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i wneud cyfarfodydd yn fwy hygyrch ee, mae fideo ar YouTube o hanes claf o'r AGM wedi cael ei wylio bron 100 o weithiau;<br>• ceir fersiwn fer a hygyrch o'r CTCI sydd hefyd ar gael ar y wefan; ac<br>• mae'r Prif Weithredwr yn cynyddu ei hamlygrwydd drwy ddefnyddio Twitter. | |
| Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Allanol wedi'i chymeradwyo ym mis Awst 2015. Nod y Strategaeth yw creu fframwaith clir, lefel uchel a pharhaus y gall y Bwrdd Iechyd ei ddefnyddio'n sail er mwyn datblygu dulliau mwyfwy effeithiol a phriodol o ymgysylltu â'i randdeiliaid niferus ac amrywiol. Bydd hyn yn cefnogi gwaith i gyflawni'r agenda newid. | Nid oes grŵp cyfeirio rhanddeiliaid, sy'n golygu nad yw'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r dull defnyddiol iawn hwn o gasglu safbwyntiau. |

| Cryfderau a datblygiadau | Risgiau a heriau |
|---|---|
| Ceir enghreifftiau da o welliannau i'r dull o gasglu a rhannu straeon cleifion. Fodd bynnag, mae angen i'r Bwrdd Iechyd wneud mwy o waith cyn i'r dull hwn ddatblygu'n ddull cynhwysfawr a chynaliadwy. Dyma dystiolaeth o gynnydd:<br>• cymryd rhan yn y mentrau cenedlaethol i ymateb i'r Papur Gwyn ar Wella Gofal Iechyd 'Gwrando a dysgu er mwyn gwella profiadau gofal: Deall sut mae'n teimlo i ddefnyddio gwasanaethau yn GIG Cymru (Mehefin 2015)';<br>• trafodaeth gadarnhaol yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mehefin 2015 ynghylch defnyddio a datblygu Straeon Cleifion ymhellach;<br>• ceir Strategaeth Profiadau Cleifion ar ffurf drafft, ac mae gweithdy wedi'i gynllunio ar gyfer mis Chwefror 2016;<br>• tîm cyfun ar gyfer pryderon a phrofiadau cleifion;<br>• cafodd Grŵp Llywio Profiad y Claf ei ailwampio a'i lansio ym mis Hydref 2015; a<br>• dyrannwyd profiadau cleifion i bortffolio'r Pennaeth Nyrsio – Prosiectau. | Mae'n hanfodol i'r Bwrdd Iechyd wella'r trefniadau ar gyfer dysgu yn sgil profiadau cleifion drwy gytuno ar Strategaeth Profiadau Cleifion a'i gweithredu.<br>Dyma enghreifftiau o lwybrau y gellid eu datblygu a ddefnyddiwyd gan Fyrddau Iechyd eraill:<br>• prawf ffrindiau a pherthnasau fel bo modd cymharu â Lloegr;<br>• arolygon cleifion rheolaidd;<br>• defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn monitro geiriau sbardun er mwyn caniatáu adborth byw; a<br>• adroddiadau ar ganran y cleifion sy'n rhoi adborth am wasanaethau. |

# Atodiad 1

## Argymhellion o asesiad strwythuredig 2014

Nodir isod argymhellion asesiad strwythuredig 2014, a chrynodeb o'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob argymhelliad.

| Argymhelliad | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|
| **Cynllunio a rheoli ariannol** | |
| A1 Mae rhai cynlluniau arbed yn afrealistig, a gall yr amser paratoi sydd ei angen er mwyn cyflawni rhai o'r cynlluniau arbed mwy cymhleth fod yn sylweddol. Roedd yn dal angen atgyfnerthu dulliau o sicrhau arbedion ochr yn ochr â phrosesau cyflenwi a chynllunio ariannol.<br>**Atgyfnerthu'r prosesau cynllunio ariannol, cyflenwi a monitro er mwyn cefnogi cyflawniad y cynlluniau arbed blynyddol.** | Erbyn hyn, mae gan y Cyfarwyddwr Cyllid gynllun ar waith ar gyfer pob cynllun arbed (ar wahân i PGIAC) i gefnogi trefniadau cadarn ar i fonitro a rheoli risg er bod angen gwneud gwaith pellach i sicrhau bod pob cynllun yn bodloni'r safon ofynnol.<br>Sefydlodd y Prif Weithredwr Grŵp Cyflawni a Pherfformiad, sy'n atgyfnerthu goruchwyliaeth y Weithrediaeth dros bob agwedd ar berfformiad.<br>Mae'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn monitro cyllid a chynlluniau arbed. Mae'r Pwyllgor yn derbyn sicrwydd manwl ynghylch perfformiad ariannol y sefydliad, ac yn craffu ar gynnydd yn erbyn y cynlluniau arbed. |
| **Trefniadau ar gyfer llywodraethu'r busnes** | |
| A2 Er nad oes gan y Bwrdd CTCI cymeradwy eto, y mae wedi nodi themâu a heriau strategol lefel uchel. Fodd bynnag, nid yw'r rhain hyd yma wedi cael eu trosi'n gynllun neu'n rhaglen gyflawni â blaenoriaeth, gan greu ansicrwydd ynghylch trawsnewid i fodelau a llwybrau gofal yn y dyfodol.<br>**Creu cynlluniau strategol a gweithredol sy'n cefnogi trawsnewid i fodelau a llwybrau gofal yn y dyfodol. Datblygu dull ar lefel gorfforaethol i fonitro a chraffu ar waith i gyflawni cynlluniau strategol ac amcanion sefydliadol.** | Mae gan y Bwrdd Iechyd CTCI a chynllun blynyddol cymeradwy ar gyfer 2015-16. Mae cynlluniau strategol a gweithredol yn cael eu datblygu drwy'r Rhaglen Drawsnewid.<br>Mae'r Bwrdd Trawsnewid yn darparu adroddiadau manwl ar gynnydd i'r Bwrdd ac adroddiadau eithrio manylach i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. Cafodd y trefniadau llywodraethu eu hadolygu a'u diwygio yn ystod y flwyddyn, ac mae gwaith pellach yn cael ei gyflawni i ddatblygu trefniadau adrodd y Rhaglen Drawsnewid yn unol â'r rhaglenni newydd sy'n cael eu sefydlu. Mae cynllun rhaglen lefel uchel yn pennu cerrig milltir allweddol hyd 2018-19. |

| Argymhelliad | | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|
| A3 | Er bod y cyfrifoldeb am gyflenwi yn ei ardaloedd lleol wedi'i ddirprwyo i'r Bwrdd Iechyd, mae angen cynllunio model atebolrwydd perfformiad sy'n adlewyrchu'r ymagwedd at reolaeth ddirprwyedig. Mae'r model ardal yn esblygu, ond mae rhai problemau wedi codi, fel y graddau y dylid canoli neu ddatganoli atebolrwydd a phrosesau.<br><br>**Cadarnhau'r llinellau atebolrwydd ar gyfer ardaloedd mewn dogfen FfRhP.** | Ailgynlluniodd y Bwrdd Iechyd y strwythurau ardal er mwyn sicrhau eglurder ynghylch pwrpas a llinellau atebolrwydd i'r Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Chymunedol. Ym mis Mehefin, cymeradwyodd y Bwrdd FfRhP sy'n cadarnhau'r llinellau atebolrwydd ar gyfer ardaloedd. Cynllun lefel uchel yw'r FfRhP, ac mae gwaith pellach ar y gweill i ddatblygu'r cynllun gweithredu. Nid yw hwn wedi'i ymwreiddio eto, a bwriedir defnyddio 2015-16 fel blwyddyn drosiannol tuag at gyflawni hynny. Mae'r fframwaith yn nodi llinellau atebolrwydd, camau uwchgyfeirio a chamau bras tuag at greu diwylliant perfformiad. |
| A4 | Yn 2012, argymhellais y dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd i'w helpu i asesu ei risgiau cyffredinol a datblygu a chynllunio'r rhaglen sicrhau a goruchwylio angenrheidiol. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cwblhau'r fframwaith hwnnw eto.<br><br>**Cwblhau a gweithredu Fframwaith Sicrwydd Bwrdd cadarn.** | Mae gwaith sylweddol wedi cael ei gyflawni ar drefniadau llywodraethu corfforaethol, gan gynnwys datblygu ystod o fframweithiau sicrwydd:<br>• System sicrwydd y Bwrdd a gymeradwywyd ym mis Rhagfyr 2014<br>• Fframwaith sicrwydd risg a gymeradwywyd ym mis Mehefin 2015<br>• Fframwaith sicrwydd perfformiad a gymeradwywyd ym mis Mehefin 2015<br>• Fframwaith gwerthoedd ac ymddygiad a gymeradwywyd ym mis Mehefin 2015<br>• Fframwaith sicrhau ansawdd yn cael ei ddatblygu<br>Cynhaliwyd Sesiwn Datblygu'r Bwrdd ar 27 Hydref 2015 i ddarparu hyfforddiant ar ddiben Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r defnydd ohono, ochr yn ochr â datblygu Awydd am Risg a Goddefiant o Risg. Mae gwaith pellach ar y gweill i fireinio ac ymwreiddio'r trefniadau hyn. Bydd yn bwysig i'r Bwrdd Iechyd brofi'r trefniadau i weld a ydynt yn gweithio'n unol â'r bwriad ar ôl eu sefydlu. |

| Argymhelliad | | Crynodeb o’r cynnydd |
|---|---|---|
| A5 | Dengys sylwadau yng nghyfarfodydd y Bwrdd a’r Pwyllgorau fod Aelodau Annibynnol yn herio ar y cyd. Fodd bynnag, mae trylwyredd yr her, y craffu a’r cwestiynu yn amrywio.<br>**Datblygu rhaglen gymorth i Aelodau Annibynnol er mwyn cynyddu eu gallu i graffu ar y Bwrdd Iechyd.** | Mae Rhaglen Datblygu’r Bwrdd wedi cael ei sefydlu gyda sesiynau i ddarparu cymorth parhaus i aelodau annibynnol i’w galluogi i gyflawni eu rôl. Roedd yr adroddiad busnes blynyddol i’r Bwrdd ym mis Mehefin 2015 yn cynnwys atodiad defnyddiol ar Foesddefodau’r Bwrdd. |
| A6 | Ni all y Bwrdd na’i bwyllgorau ond gweithredu’n effeithiol os oes ganddynt wybodaeth briodol sy’n eu galluogi i gyflawni eu dyletswyddau. Dengys gwaith eleni fod gwybodaeth fel arfer yn cefnogi rheolaeth a llywodraethu effeithiol, ond bod angen gwelliannau mewn rhai meysydd.<br>**Gwella’r gefnogaeth i bwyllgorau drwy sicrhau bod papurau o ansawdd da, a sicrhau bod papurau a chofnodion bob amser yn cael eu dosbarthu o fewn terfyn amser priodol.** | Ceir bellach Gylch Gweinyddu’r Bwrdd ar waith sy’n pennu terfynau amser clir ar gyfer cyflwyno cofnodion a phapurau. Cofnodion bellach yn cael eu cylchredeg ar ffurf ddrafft i’r Bwrdd a’r Pwyllgorau i’w diwygio cyn y cyfarfodydd.<br>Cafwyd rhywfaint o welliant o ran amseroldeb wrth gyflwyno agendâu a dosbarthu papurau a chofnodion. Fodd bynnag, ceir sefyllfaoedd o hyd lle na chaiff papurau eu cyflwyno’n ddigon buan i roi cyfle i aelodau annibynnol eu darllen. Digwyddodd hyn yn fwyaf diweddar yn achos y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ym mis Rhagfyr, pan fu’n rhaid gohirio’r cyfarfod.<br>Cafodd templed adroddiadau’r Bwrdd ei ddiwygio i ddarparu gwybodaeth sydd ei hangen gan y Bwrdd a’i bwyllgorau. Roedd yr adroddiad busnes blynyddol i’r Bwrdd ym mis Mehefin 2015 yn cynnwys atodiad defnyddiol ar Safonau Busnes ar gyfer Papurau Bwrdd. Roedd y ddogfen hon yn pwysleisio pa mor bwysig oedd sicrhau bod papurau Bwrdd wedi’u hysgrifennu’n dda, fel bo modd i Aelodau Annibynnol ddeall y prif faterion yn rhwydd ac yn gyflym.<br>Mae angen gwneud gwaith pellach i sicrhau bod yr holl bapurau a gyflwynir gerbron y Bwrdd a’r pwyllgorau yn cyrraedd yr un safonau uchel. |

| Argymhelliad | | Crynodeb o'r cynnydd |
|---|---|---|
| A7 | Nid yw'r Pwyllgor Rheoli Gwybodaeth yn darparu'r lefel gywir o oruchwyliaeth a sicrwydd er mwyn sicrhau bod gan y sefydliad drefniadau effeithiol i gydymffurfio â deddfwriaeth gwybodaeth allweddol.<br>**Atgyfnerthu trefniadau'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth er mwyn sicrhau goruchwyliaeth a sicrwydd effeithiol ar gyfer llywodraethu gwybodaeth.** | Mae dull y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth wedi gwella rhywfaint, ac mae'r pwyllgor wedi cyfarfod yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Mae ganddo gynllun gwaith syn disgrifio'r ffynonellau sicrwydd. Mae angen gwaith pellach i adolygu ac ailwampio'r cylch gorchwyl a'i raglen waith er mwyn canolbwyntio ar feysydd lle ceir y risg fwyaf, ac ymdrin â materion sy'n codi'n barhaus. |
| **Ffactorau sy'n galluogi defnydd effeithiol o adnoddau** | | |
| A8 | Ceir gwendidau cyffredinol o hyd yn y rheolaeth ar asedau ac ystadau.<br>**Datblygu strategaeth ystadau gadarn a sicrhau yr ymdrinnir â materion cydymffurfio allweddol.** | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno Achos Cyfiawnhau Busnes i Lywodraeth Cymru er mwyn ymdrin â'r materion cydymffurfio a amlygwyd mewn adroddiadau archwilio mewnol. Amcangyfrifwyd mai £68.5 miliwn yw gwerth y gwaith sydd angen ei gyflawni ar ystadau a chydymffurfio, sy'n her sylweddol.<br>Bydd gwaith pellach ar y strategaeth ystadau'n cael ei ddatblygu yn y tymor hwy yn rhan o'r Rhaglen Ystadau oddi mewn i'r Rhaglen Drawsnewid. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru